



The Bar Council
Integrity. Excellence. Justice.



DOD YN
FARGYFREITHIWR

UNIONDEB. RHAGORIAETH. CYFIAWNDER.

*Mae Cyngor y Bar yn cynrychioli
bargyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr.
Mae'n hyrwyddo:*

- Gwasanaethau eirioli a chynghori arbenigol y Bar sydd o ansawdd uchel
- Mynediad teg i gyfiawnder i bawb
- Y safonau uchaf o ran moeseg, cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob rhan o'r proffesiwn
- Datblygu cyfleoedd busnes i fargyfreithwyr yn y wlad hon a dramor.



The Bar Council
Integrity. Excellence. Justice.

www.barcouncil.org.uk

 [@thebarcouncil](https://twitter.com/thebarcouncil)

Cyngor Cyffredinol y Bar yw Rheoleiddiwr Cymeradwy Bar Cymru a Lloegr.
Mae'n cyflawni ei swyddogaethau rheoleiddiol drwy Fwrdd Safonau annibynnol y Bwrdd.

CYFLWYNIAD


*Drwy ddewis dod yn fargyfreithiwr
mae'n ddigon posibl y byddwch yn
dechrau ar un o'r gyrfaedd mwyaf
deinamig a heriol sydd ar gael.*

Bydd y llyfryn hwn yn eich cyflwyno i fywyd fel bargyfreithiwr. Bydd yn sicrhau bod gennych y wybodaeth sydd ei hangen arnoch i'ch helpu i benderfynu p'un ai gyrfa yn 'y Bar' (fel y gelwir y proffesiwn) fyddai'r dewis cywir i chi ai peidio. Bydd yn esbonio'r camau sydd angen eu cymryd tuag at y llwybr gyrfa hwn, sut a phryd y bydd angen i chi eu cymryd a ble y gallwch gael cymorth ar hyd y ffordd.

Ar wefan Cyngor y Bar gallwch lawrlwytho fersiwn electronig o'r llyfryn hwn a gweld proffiliau amrywiol fargyfreithwyr, sy'n esbonio pam y gwnaethant benderfynu ymuno â'r proffesiwn. Mae'r holl wybodaeth hon ar gael yn www.barcouncil.org.uk/careers. Os oes gennych unrhyw gwestiwn pellach gallwch anfon neges e-bost i careers@barcouncil.org.uk.

Fel arall, os hoffech gael cipolwg i gael gwell syniad o'r llwybr gyrfa, mae canllaw cyfeirio defnyddiol byr yng nghefn y llyfryn hwn.

BETH YW BARGYFREITHIWR?



“Mae’n wych gallu sefyll i fyny a chynrychioli rhywun yn y llys drwy ddefnyddio eich sgiliau i ennill achos ar ei ran.”

Simon O’Toole,
Siambrau 5 Pump

Yng Nghymru a Lloegr, mae'r proffesiwn cyfreithiol wedi'i rannu'n ddau brif grŵp, sef: bargyfreithwyr a chyfreithwyr, gyda gweithredwyr cyfreithiol yn gwneud cyfraniad mwyfwy pwysig. Mae mwy nag 16,000 o fargyfreithwyr yn ymarfer, ond mwy na 136,000 o gyfreithwyr. Er bod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng gwaith bargyfreithwyr a chyfreithwyr, mae bargyfreithwyr yn dal i ymgymryd yn bennaf â gwaith sydd wedi'i gyfeirio atynt gan gyfreithwyr.

Mae bargyfreithwyr yn gynghorwyr ac yn eiriolwyr cyfreithiol arbenigol a all ymddangos ym mhob llys, gan gynnwys yr Uchel Lys, y Llys Apêl a'r Goruchaf Lys, ar yr amod eu bod wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol. Maent yn chwarae rôl bwysig iawn wrth helpu unigolion a sefydliadau i ddeall, arddel ac amddiffyn eu hawliau cyfreithiol.

Am wisgo wigiau a gynau a chynrychioli dadleuon cyfreithiol yn y llys y mae'n debyg bod bargyfreithwyr yn fwyaf adnabyddus. Ond mae gyrfa fel bargyfreithiwr yn golygu llawer mwy na hynny. Ni fydd llawer o fargyfreithwyr yn ymddangos bron fyth yn y llys ac, mewn rhai llysoedd, nid yw wigiau na gynau yn cael eu gwisgo mwyach. Yn ogystal â gwaith llys, mae llawer o fargyfreithwyr yn arbenigo mewn rhoi cyngor i unigolion, cwmnïau ac amrywiaeth eang o sefydliadau ar ddogfennau cyfreithiol, strwythurau cwmnïau a materion busnes ehangach sy'n ymwneud â'r gyfraith.


Mae llawer o fargyfreithwyr yn arbenigo mewn un maes cyfreithiol, neu nifer fach o feysydd cyfreithiol, yn unig. Mae gan eraill bractisau mwy cyffredinol a byddant yn rhoi cyngor ac yn darparu gwasanaethau eiriolaeth mewn amrywiaeth eang o feysydd o'r gyfraith.

Er bod y rhan fwyaf o fargyfreithwyr yn hunangyflogedig, nid ydynt yn gweithio ar eu pen eu hunain, ond maent yn tueddu i ffurfio grŵp mewn swyddfeydd a elwir yn 'siambrau', gan dalu 'rhent' iddynt i gwmpasu cost yr adeilad a'i staff. Gall cydweithwyr a staff siambrau fod yn ffynhonnell allweddol o gymorth proffesiynol a chyfeillgarwch i fargyfreithwyr ar bob lefel o'u gyrfa.

Hefyd, mae tua 3,000 o fargyfreithwyr cyflogedig, sy'n gweithio i sefydliadau, yn hytrach nag iddyn nhw eu hunain. Mae cyflogwyr bargyfreithwyr yn cynnwys Adran Gyfreithiol y Llywodraeth, Gwasanaeth Erllyn y Goron, sefydliadau gwasanaethau ariannol, diwydiant a masnach a'r Lluoedd Arfog, lle maent yn gweithio fel eiriolwyr neu gynghorwyr mewnol. Mae'r math o waith a wnânt yn dibynnu ar eu cyflogwr, ond mae gofyn iddynt feddu ar yr un galluoedd ym maes cyngor ac eiriolaeth gyfreithiol arbenigol ag sydd gan unrhyw fargyfreithiwr arall.

Yn draddodiadol, roedd yn rhaid i fargyfreithwyr gael eu cyfarwyddo gan gyfreithwyr, a daw'r rhan fwyaf o waith y Bar o'r ffynhonnell hon o hyd, er bod aelodau o'r cyhoedd wedi gallu cyfarwyddo bargyfreithwyr yn uniongyrchol drwy'r Cynllun Mynediad Cyhoeddus ers 2004.

AM BWY Y MAE'R BAR YN CHWILIO?

A young woman with vibrant blue hair and a black beanie is looking down at her smartphone. She is wearing a dark jacket and a scarf. The background is a blurred crowd of people, suggesting a busy public event or festival.

“Pan ddechreuais gyntaf roedd hi'n anodd dod o hyd i rywun ar lefel uwch na mi y gallwn ymagweddu ato. Bellach, mae pobl o bob cefndir ac amgylchiad. Peidiwch â gadael i'ch canfyddiadau o'r ffordd y dylai bargyfreithiwr edrych neu ymddwyn eich atal rhag ymuno â'r proffesiwn. Mae bargyfreithiwr yn edrych fel chi!”

Angela Rafferty CF, Siambrau Drystone

Er gwaethaf camdybiaethau a stereoteipiau poblogaidd, nid oes y fath beth â bargyfreithiwr ‘nodweddiadol’. Daw bargyfreithwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd cymdeithasol, academiaidd a phroffesiynol. Fodd bynnag, mae nifer o sgiliau a galluoedd sy’n gyffredin i’r rhan fwyaf o’r rhai sy’n llwyddo yn y Bar. Yn y lle cyntaf, mae gallu academiaidd yn hanfodol, ynghyd â sgiliau cyfathrebu cadarn.

Ni fydd angen gradd dosbarth cyntaf o Rydychen neu Gaergrawnt arnoch i ddod yn fargyfreithiwr. Fodd bynnag, waeth ble y byddwch yn astudio, bydd angen i chi ymroi i’ch astudiaethau ac ennill marciau da yn yr ysgol a’r brifysgol.

Dylech hefyd feddu ar sgiliau cyfathrebu da iawn. Yn ystod eich astudiaethau, dylech fod wedi datblygu’r gallu i fynegi dadleuon a syniadau yn glir yn ysgrifenedig, gan roi sylw gofalus i fanylion. Er mai anaml iawn y mae llawer o fargyfreithwyr yn ymddangos yn y llys, dylech fod yn hyderus yn siarad yn gyhoeddus. Dylech hefyd allu cyfathrebu’n effeithiol ag amrywiaeth eang o bobl - o farnwyr i staff llys i gleientiaid ac aelodau o’r cyhoedd.

Mae’r Bar yn chwilio am ddatrswyr problemau dibynadwy, annibynnol eu meddwl a hyblyg sydd bob amser yn agored i heriau newydd, sy’n barod i addasu i amgylchiadau sy’n newid ac a fydd yn cynnal safonau uchel o ran moeseg ac uniondeb, y tu mewn a’r tu allan i’r llys.

Mae Cyngor y Bar ac Ysbytyau’r Brawdlys yn ymrwymedig i ehangu mynediad a chreu proffesiwn amrywiol a chynhwysol.

Mae Cyngor y Bar yn cynnal nifer o fentrau, megis Wythnos Lleoliadau’r Bar, sef cyfle i gael profiad gwaith sydd wedi’i anelu at fyfyrwyr Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 sy’n bodloni meini prawf symudedd cymdeithasol. At hynny, mae llwyfan e-fentora, a gynlluniwyd ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 a myfyrwyr israddedig o gefndiroedd anhraddodiadol sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa yn y Bar. Am ragor o wybodaeth ar y rhain, ewch i www.barcouncil.org.uk/careers.

Mae Cynllun Mynediad a Chymorth Pegasus (PASS), sy’n cael ei redeg gan y Deml Fewnol, wedi’i anelu at fyfyrwyr a graddedigion prifysgolion disglair o gefndiroedd anhraddodiadol. Mae’n cynnig cyfleoedd i gael profiad gwaith a datblygu sgiliau. Yn benodol, mae’n darparu mynediad i finiddysgybleddau ac arian ar eu cyfer. Am ragor o wybodaeth ewch i www.innertemple.org.uk.

Cynhelir cynllun tebyg (Mynediad i Wobrau’r Bar) sy’n cael ei drefnu gan y Deml Ganol, sy’n gwahodd enwebiadau gan ysgolion y gyfraith unigol. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.middletemple.org.uk.

PAM Y DYLECH DDOD YN FARGYFREITHIWR?



Gall y Bar gynnig un o'r gyrfaoedd mwyaf ysgogol, amrywiol, heriol a chyffrous sydd ar gael. P'un a fyddwch yn rhoi araith gloi i lys tawel, yn negodi telerau contract newydd, yn croesholi tyst, yn cyfryngu rhwng cwpl sy'n ysgaru, yn dadlau yn erbyn tynnu budd-daliadau lles cleient oddi arno neu'n cyflwyno dadleuon cyfreithiol cymhleth i un o Farnwyr yr Uchel Lys, ni fydd unrhyw ddau ddiwrnod fel bargyfreithiwr yn union yr un fath.

Er y gellid dadlau mai'r Bar troseddol sydd fwyaf gweladwy i'r cyhoedd, mae llawer o fargyfreithwyr yn cael cymaint o foddhad o drafodaethau busnes cymhleth ag y mae eraill yn ei gael o erlyniad troseddol llwyddiannus.

“Drwy fod yn fargyfreithiwr hunangyflogedig, gyda chymorth fy nghlercod, rwyf wedi gallu dewis sut a phryd yn union rwyf am weithio. Mae hyn yn fy ngalluogi i weithio'n llawn amser yn ystod y tymor a pheidio â gwneud hynny yn ystod gwyliau'r ysgol.”

Kama Melly CF,
Siambrau Bargyfreithwyr Park Square

Gall y materion dan sylw amrywio'n fawr rhwng gwahanol feysydd o'r gyfraith, ond mae'r heriau craidd yn debyg. Mae gyrfa yn y Bar yn canolbwyntio'n bennaf ar ddatrys problemau a datrys anghydfodau, felly os ydych wrth eich bodd yn ennill dadleuon, yn dod i gasgliadau rhesymegol a rhesymedig ac yn dod o hyd i atebion i broblemau anodd, yna dylech ffynnu yn y Bar.

Yn rhannol am ei fod yn fach, mae'r Bar yn broffesiwn cymdeithasol a chlòs iawn. Mae llawer yn rhoi gwerth ar gyfeillgarwch siambrau, y digwyddiadau cymdeithasol a gynhelir gan Ysbytyau'r Brawdlys a sefydliadau eraill a'r ffrindiau y maent yn eu gwneud drwy heriau a diddordebau a rennir.



SUT Y GALLWCH DDOD YN FARGYFREITHIWR A PHRYD MAE ANGEN I CHI WNEUD Y PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL?

Os oes gennych ddiddordeb mewn dod yn fargyfreithiwr, nid yw byth yn rhy gynnar i ddechrau meddwl am y cymwysterau a'r profiad y gallai fod eu hangen arnoch er mwyn llwyddo.

Mae'r Bar yn broffesiwn bach ac mae cryn dipyn o gystadleuaeth am leoedd hyfforddi, a elwir yn 'ddisgybleddau'. Mae graddau TGAU da, cymwysterau Safon Uwch a gradd yn ofynion sylfaenol.

Mae tri phrif gam i ddod yn fargyfreithiwr, sef: cam academaidd, sy'n cynnwys gradd gyntaf neu'r Diploma i Raddedigion yn y Gyfraith; cam galwedigaethol, sy'n cynnwys astudio am y cymhwyster galwedigaethol (Cwrs Hyfforddiant Proffesiynol y Bar); a cham ymarferol, sy'n cynnwys hyfforddiant proffesiynol (disgybledd).

Blynyddoedd TGAU

Os ydych eisoes yn ystyried gyrfa fel bargyfreithiwr, dyma'r amser perffaith i chi ddechrau cael profiad a fydd yn ategu eich CV a dysgu cymaint â phosibl am y proffesiwn. Efallai y byddwch hefyd yn gallu cael profiad gwaith gyda chwmni lleol o gyfreithwyr neu lys lleol, er mwyn i chi gael mwy o syniad am sut beth yw gyrfa yn y gyfraith.

Yn ogystal â chanolbwyntio ar gael graddau da, mae'n bwysig cofio y bydd setiau o siambrau yn chwilio am sgiliau a phrofiadau sy'n gwneud i chi sefyll allan. Dylech ddechrau meddwl am ba ddiddordebau allanol trawiadol neu anarferol y gallech eu mwynhau a allai eich gwneud yn ymgeisydd mwy dymunol a chytbwys.

Blynyddoedd Safon Uwch

hastudio ar gyfer Safon Uwch. Dylech geisio gwneud yn siŵr eu bod yn bynciau rydych yn eu mwynhau ac y mae gennych ddiddordeb naturiol ynddynt. Fel arfer, mae'n well astudio pynciau sy'n fwy academaidd yn draddodiadol ac sy'n cynnwys rhywfaint o ysgrifennu, er mwyn i chi allu arddangos eich sgiliau cyfathrebu a dadansoddi o gam cynnar. Efallai y byddwch am edrych ar ofynion derbyn prifysgolion a phynciau Safon Uwch a ffeirir ar gyfer cyrsiau gradd penodol.

Nid oes angen i chi astudio'r Gyfraith ar lefel Safon Uwch. Bydd yn ddefnyddiol i chi feddwl am y mathau o bynciau a allai sicrhau eich bod yn meithrin rhai o'r sgiliau y byddai eu hangen arnoch yn y Bar, megis y gallu i ddadlau pwynt yn rhesymegol, rhesymedig ac eglur.

Mae'r blynyddoedd pan fyddwch yn astudio am gymwysterau Safon Uwch yn amser da i ddechrau cael rhywfaint o brofiad o siarad yn gyhoeddus, megis dadlau, ac ystyried gwneud ceisiadau am gyfnodau byr o brofiad gwaith, a elwir yn finiddysgybleddau ac nad ydynt yn para mwy nag wythnos fel arfer, gyda setiau o siambrau. Nifer gyfyngedig o siambrau sy'n cynnig y rhain i bobl ifanc o dan 18 oed a bydd angen i chi edrych ar eu gwefannau am fanylion.


Beth i'w astudio yn y brifysgol

Rywbyrd yn ystod eich astudiaethau Safon Uwch, bydd yn rhaid i chi ddewis p'un a fyddwch yn astudio am radd israddedig yn y gyfraith neu radd arall. Os byddwch yn dewis gradd arall, bydd angen i chi ddilyn cwrs trosi blwyddyn ychwanegol, a elwir yn Ddiploma yn y Gyfraith i Raddedigion ('GDL'), ar ôl cwblhau eich gradd israddedig. Bydd y cwrs trosi hwn yn golygu costau ychwanegol, felly mae'n bwysig ystyried hyn pan fyddwch yn gwneud eich penderfyniad.

“Byddwch yn strategol. Dylai eich CV adrodd stori y gallai ei diwedd, yn gredadwy ddigon, ddarllen: ‘ac wedyn daeth yn fargyfreithiwr’.”

Duncan McCombe
Siambrau Maitland

Nid oes rhaid i chi astudio'r gyfraith yn y brifysgol er mwyn dod yn fargyfreithiwr. Mae'n gyffredin iawn i fargyfreithwyr gwblhau graddau mewn pynciau eraill ac wedyn troi ('trosi') at y gyfraith. I'r unigolyn cywir, gall hwn fod yn gam defnyddiol iawn wrth ddewis gyrfa, am ei fod yn ei alluogi i ohirio ei benderfyniad ynghylch p'un a ddylai ymuno â'r proffesiwn cyfreithiol ai peidio tra bydd yn astudio pwnc y mae ganddo ddiddordeb mawr ynddo ac a allai ei arwain i ddewis dilyn llwybr gyrfa gwahanol yn ddiweddarach. Mae rhai meysydd ymarfer, megis eiddo deallusol (sy'n ymwneud ag amddiffyn syniadau a dyluniadau) a chyfraith feddygol, yn rhoi gwerth ar raddau israddedig mewn gwyddoniaeth, er enghraifft. Mae'n bwysig cofio, pa bwnc bynnag y dewiswch ei astudio, y bydd bron pob disgybl wedi cael gradd dosbarth cyntaf neu radd ail ddsbarth uwch. er a first class or upper second class degree.



LLINELL AMSER AT Y BAR

Blwyddyn olaf ond un o astudio am radd israddedig yn y gyfraith / blwyddyn olaf o astudio am radd nad yw'n radd yn y gyfraith

Trwy gydol y flwyddyn

Myfyrwr y Gyfraith Dechrau meddwl am gael rhywfaint o brofiad gwaith perthnasol. Gwneud digon o ymchwil i siambrau / miniddisgybleddau. Paratoi CV i wneud ceisiadau am ddisgybleddau a BPTC

Erbyn mis Mai

Myfyrwr nad ydynt yn fyfyrwr y gyfraith Gwneud cais am ysgoloriaeth ar gyfer Diploma yn y Gyfraith i Raddedigion gan Ysbytyau'r Brawdlys.

Blwyddyn olaf gradd yn y Gyfraith neu Ddiploma yn y Gyfraith i Raddedigion

O fis Medi

Sefyll Prawf Cymhwyster Cwrs y Bar

Erbyn dechrau mis Tachwedd

Gwneud cais am Ysgoloriaeth ar gyfer Cwrs Hyfforddiant Proffesiynol y Bar (BPTC) gan Ysbytyau'r Brawdlys.

Rhagfyr

Gwneud cais i ddilyn BPTC drwy Wasanaeth Ceisiadau Myfyrwr y Bar (BARSAS)

Trwy gydol y

Gwneud cais am ddisgybleddau i setiau nad ydynt ar y Porth Disgybleddau.

Ionawr/Chwefror

Gwneud cais am ddisgybledd drwy'r Porth Disgybleddau erbyn y dyddiad cau, sef mis Chwefror. www.pupillagegateway.com

Mai

Gwneud cais i ymaelodi ag un o Ysbytyau'r Brawdlys erbyn 31 Mai.

Peidiwch ag anghofio mynd i Ffair Disgybleddau Cyngor y Bar cyn i chi wneud cais am ddisgybledd: www.barcouncil.org.uk/pupillagefair.

Blwyddyn BPTC

Trwy gydol y flwyddyn

Gwneud cais am ddisgybleddau i setiau nad ydynt ar y Porth Disgybleddau os oeddech yn aflwyddiannus yn y flwyddyn flaenorol.

Ionawr/Chwefror

Os na lwyddoch chi i gael disgybledd y llynedd, dylech wneud cais am ddisgybledd cyn y dyddiad cau, sef mis Chwefror.

Mehefin

Gorffen y BPTC. Ar ôl pasio'r cwrs a chwblhau eich 12 sesiwn gymhwyso, byddwch yn gymwys i gael eich Galw i'r Bar.

Cofiwch gwblhau eich 12 sesiwn gymhwyso er mwyn sicrhau eich bod yn gymwys i gael eich Galw i'r Bar.

Blwyddyn disgybledd

Hydref

Dechrau ar eich disgybledd.

Haf

Gwneud cais am denantiaeth i'ch Siambrau neu gais am swydd gyflogedig. Os bydd y cais yn llwyddiannus, cynigir tenantiaeth neu gyflogaeth i chi. Os na fyddwch yn llwyddiannus, gallwch wneud cais am drydydd chwech neu swydd gyflogedig rywle arall.

Hydref

Dechrau ar y denantiaeth neu'r swydd.

Gwneud cais am ddisgybledd

Eich blwyddyn olaf o astudio am radd yn y gyfraith neu GDL fydd eich cyfle cyntaf i wneud cais am ddisgybledd, sef yr elfen ymarferol o'ch hyfforddiant i ddod yn fargyfreithiwr. Bob blwyddyn mae graddedigion y cwrs BPTC yn gwneud cais am ddisgybledd ac, ar ben hynny, mae'r unigolion hynny na chawsant ddisgybledd yn y flwyddyn flaenorol yn ymuno â'r ymgeiswyr hynny. Gall graddedigion y cwrs BPTC wneud cais am ddisgybledd i ddechrau bum mlynedd o'r dyddiad y maent yn pasio'r cwrs.

Mae'r broses gwneud cais yn amrywio yn ôl y set o siambrau neu'r sefydliad, gyda llawer yn defnyddio system gwneud cais ar-lein Cyngor y Bar (www.pupillagegateway.com) ac eraill yn dewis rheoli eu ceisiadau yn annibynnol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymchwilio i'r siambrau/sefydliad a ddewiswyd gennych ymlaen llaw er mwyn sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r holl ofynion a dyddiadau cau.

Dylech hefyd fynd i Ffair Ddisgybleddau Cyngor y Bar yn yr Hydref yn y flwyddyn rydych yn gwneud cais - gweler www.barcouncil.org.uk/pupillagefair. Bydd hyn yn gyfle i chi gyfarfod a siarad â bargyfreithwyr, sy'n cynrychioli amrywiaeth eang o siambrau a sefydliadau. Hefyd, bydd rhaglen o sesiynau i fyfyrwyr i roi gwybodaeth iddynt a'u helpu gyda cheisiadau am ddisgybleddau.

Cymerwch gymaint o amser ag y gallwch i ymchwilio i setiau gwahanol o siambrau a sefydliadau a pharatowch eich cais(ceisiadau) ac, os yw'n berthnasol,

eich CV a'ch llythyrau eglurhaol yn ofalus (y bydd angen i chi eu darparu, o bosibl, os na fydd set o siambrau neu sefydliad yr hoffech wneud cais iddynt/iddo yn defnyddio'r un system gwneud cais ar-lein). Gallai set unigol o siambrau gael cannoedd o geisiadau am ddim ond un neu ddau le disgybledd. Gwnewch yn siŵr bod eich cais wedi'i deilwra i'r cyfle penodol hwnnw.

Gallai cyfweiliadau am ddisgybleddau gynnwys tasgau datrys problemau ac ymarferion eirioli ffug, yn ogystal â'r math o gwestiynau y byddech yn disgwyl eu cael mewn unrhyw gyfweiliad am swydd. Mae rhai setiau o siambrau yn hidlo ymgeiswyr drwy wahodd nifer gymharol fawr am gyfweiliad byr, 10 munud. Nid oes angen dweud, waeth beth fo hyd y cyfweiliad cyntaf, fod argraffiadau cyntaf yn bwysig iawn.

Cwrs Hyfforddiant Proffesiynol y Bar

Ar ôl i chi gwblhau eich astudiaethau cyfreithiol academiaidd (h.y. eich gradd yn y gyfraith neu'ch GDL), bydd angen i chi ddysgu sut i wneud defnydd ymarferol o'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth honno. Bydd yn rhaid i chi ddilyn cwrs galwedigaethol sy'n para blwyddyn (y gellir ei astudio'n rhan-amser hefyd a'i gwblhau dros ddwy flynedd) a elwir yn Gwrs Hyfforddiant Proffesiynol y Bar ('BPTC'). Byddwch yn dysgu trefniadaeth sifil a throseddol, sgiliau eirioli, dulliau ymchwilio, moeseg a sut i reoli practis. Mae gwefan Cyngor y Bar yn rhoi manylion am ble y gallwch astudio'r BPTC ledled Cymru a Lloegr: www.barcouncil.org.uk/careers.



**Hysbysir pob disgybledd
sydd ar gael ar y Porth
Disgybleddau**

www.pupillagegateway.com

Mae'n bwysig eich bod yn gwneud yn siŵr eich bod yn ystyried yr holl opsiynau sydd o'ch blaen cyn dewis darparwr BPTC. Cofiwch y gall ffioedd cyrsiau a llety y tu allan i Lundain fod yn rhatach. Efallai y byddwch eisoes wedi ystyried ble yr hoffech ymgymryd â'ch disgybledd ac, yn y pen draw, ymarfer yn ddaearyddol, a all eich helpu i wneud eich dewis.

Os na fyddwch yn llwyddo i gael disgybledd yn ystod blwyddyn olaf eich gradd yn y gyfraith neu yn ystod y GDL, fel sy'n digwydd yn aml, cewch gyfle arall i wneud cais yn ystod eich blwyddyn ar y cwrs BPTC. Yn ystod y cyfnod hwn, dylech gael cyfleoedd i wella ansawdd eich ceisiadau drwy gael rhagor o brofiad perthnasol.

Ar yr un pryd, byddwch yn dilyn cyrsiau hyfforddi a ddarperir gan eich Ysbyty er mwyn i chi gymhwyso i gael eich 'Galw i'r Bar'. Mae'r broses o gael eich 'Galw i'r Bar' yn gorffen gyda seremoni, sy'n debyg i seremoni raddio, lle y byddwch yn dod yn fargyfreithiwr yn ffurfiol (er na chaniateir i chi ymarfer cyn i chi gwblhau eich disgybledd).

Ar ôl ymuno ag Ysbyty, dylech gael cyfle i ofyn i'ch Ysbyty am 'noddwr' neu 'fentor': sef bargyfreithiwr sy'n ymarfer a all roi cyngor ymarferol i chi a helpu i'ch cyflwyno i fywyd yn y Bar. Ni fydd y rhan fwyaf o Ysbytyau yn pennu noddwyr i fyfyrwyr nes y byddant yn astudio ar gyfer y GDL neu'n dilyn y BPTC.

Byd angen i chi gwblhau 12 'Sesiwn Gymhwyso' gyda'ch Ysbyty (a allai gynnwys penwythnosau hyfforddi preswyl, gweithdai seiliedig ar sgiliau neu fynd i ddarlithoedd wedi'u dilyn gan giniawau ffurfiol gyda

bargyfreithwyr a barnwyr) a rhaid i chi basio'r BPTC er mwyn cael eich Galw i'r Bar gan eich Ysbyty. Cynhelir y seremoni hon ym mis Mawrth, mis Gorffennaf, mis Hydref neu fis Tachwedd. Gallwch wahodd gwsteion ac mae'n achlysur bythgofiadwy i'r rhai sy'n cymryd rhan ynddo.

Ar ôl y BPTC

Am fod siambrau yn recriwtio disgyblion ymhell ymlaen llaw, os byddwch yn gwneud cais llwyddiannus am ddisgybledd tra'n dilyn y cwrs BPTC, mae'n debygol y bydd yn rhaid i chi aros am flyyddyn cyn i'ch disgybledd ddechrau. Fodd bynnag, mae llawer o bethau y gallwch eu gwneud yn ystod y flyyddyn honno i ddefnyddio eich sgiliau cyfreithiol. Os na fydd eich ceisiadau am ddisgybledd yn llwyddiannus, gallwch wneud cais o hyd i ddechrau ar ddisgybledd hyd at bum mlynedd ar ôl cwblhau'r BPTC. Os byddwch am ailymgeisio am ddisgybledd unwaith eto, waeth beth y dewiswch ei wneud yn y cyfamser, gwnewch yn siŵr eich bod yn parhau i wella eich CV ac yn ceisio cael profiad a fydd yn ategu ceisiadau yn y dyfodol.

Disgybledd

Disgybledd yw cam ymarferol hyfforddiant i fod yn fargyfreithiwr, y gallwch ddechrau arni hyd at bum mlynedd ar ôl cwblhau'r BPTC. Cwblheir y cwrs hwn naill ai mewn set o siambrau neu gyda sefydliad cymeradwy arall. Fel arfer, mae disgybleddau yn dechrau ym mis Medi neu fis Hydref, flyyddyn ar ôl i chi gael



eich derbyn gan y siambrau (felly bydd ymgeiswyr llwyddiannus ym mis Chwefror 2017 yn dechrau ar ddisgybledd yn ystod hydref 2018).

Mae disgybledd yn eithaf tebyg i brentisiaeth. Pennir goruchwylwyr disgyblion (sef bargyfreithwyr yn yr un set o siambrau neu sefydliad) i chi, y byddwch yn eu cysgogi ac y byddwch yn gwneud gwaith dan oruchwyliaeth iddynt. Mae disgybledd yn para 12 mis ac fe'i rhennir yn ddau gyfnod, sef y chwe mis cyntaf a'r ail chwe mis. Yn ystod eich ail chwe mis, byddwch yn gymwys i ymgymryd ag achosion ar eich pen eich hun, er y byddwch yn cael eich goruchwyllo'n ofalus.

Mae'n ofynnol i siambrau ariannu eich disgybledd â dyfardnal o £12,000 o leiaf (wedi'i rannu'n £6,000 ar gyfer pob cyfnod o chwe mis). Mae rhai siambrau yn rhoi dyfardnaliadau llawer mwy; yn enwedig setiau siawnsri a setiau masnachol, sy'n cystadlu â'r cwmnïau cyfreithiol masnachol mawr am ymgeiswyr. Mae'r rhan fwyaf o siambrau yn caniatáu i chi gadw'r arian a enillir gennych yn ystod eich ail chwech.

Mae dulliau recriwtio yn amrywio rhwng siambrau ond, fel arfer, caiff penderfyniadau ynghylch 'tenantiaeth' (lleoedd hirdymor mewn siambrau) eu gwneud tua 10 mis ar ôl i'r ddisgybledd ddechrau. Gall fod cystadleuaeth gref am denantiaeth, gyda rhai siambrau yn derbyn sawl disgybl ond ddim ond yn cadw un fel tenant.

Gallai'r broses arfarnu fod yn seiliedig ar asesiad eich goruchwylwr disgyblion o'ch galluoedd yn unig, neu efallai y bydd yn

rhaid i chi gymryd rhan mewn ymarferion eirioli ffug ffurfiol. Mae setiau eraill o siambrau yn derbyn pob disgybl gyda'r nod o'u gwneud yn denant os byddant yn perfformio'n dda. Hefyd, bydd angen i chi basio cwrs eiriolaeth a asesir, a addysgir gan eich Ysbyty neu'ch Cylchdaith.

Y Trydydd Chwech

Os na fyddwch yn cael tenantiaeth yn y siambrau lle y gwnaethoch gwblhau eich disgybledd, gallwch wneud cais am 'drydydd chwech' mewn set arall. Gallai hyn eich galluogi i gael eich amlygu i fathau eraill o waith a fydd yn rhoi cyfle arall i chi wneud cais am denantiaeth. Hysbysebwr disgybleddau Trydydd Chwech ar wefan Cyngor y Bar (www.barcouncil.org.uk/careers/third-six-vacancies).

Tenantiaeth

Unwaith y byddwch yn denant, daw eich holl incwm o'r gwaith yr ymgymerwch ag ef, naill ai yn eich rhinwedd eich hun neu, ar ddechrau eich gyrfa, pan fyddwch yn gweithredu fel aelod ieuaf tîm o fargyfreithwyr. Gyda chymorth 'clercod' y siambrau (sy'n gyfrifol am bennu gwaith i'r bargyfreithwyr yn eu siambrau ac, mewn llawer o achosion, greu busnes newydd), bydd angen i chi feithrin enw da ymhlith darpar gleientiaid a rhwydwaith o gyfreithwyr a fydd yn eich 'cyfarwyddo' (gan eich talu i ddarparu gwasanaethau arbenigol i bob pwrpas) yn rheolaidd.

Unwaith y byddwch yn denant, bydd y rhan fwyaf o siambrau yn gofyn i chi dalu cyfran o'ch enillion ('rhent') i gwmpasu costau cyflogaeth siambrau a gorbenion eraill a rennir.

Y Bar Cyflogedig

Mae cyfran o'r rhai a Elwir i'r Bar yn cwblhau eu disgybleddau gyda sefydliadau sy'n eu cyflogi fel aelodau o staff parhaol neu dan gontract, neu byddant yn cael swyddi gyda nhw yn ddiweddarach. Gallai hyn roi mwy o sicrwydd swydd iddynt a'r cyfle i gael budd-daliadau megis absenoldeb salwch â thâl, gwyliau â thâl ac absenoldeb rhiant â thâl. Bydd eu gwaith yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar eu cyflogwr. Mae cyflogwyr bargyfreithwyr yn cynnwys Gwasanaeth Eryl y Goron, Adran Gyfreithiol y Llywodraeth, y Lluoedd Arfog, Llywodraeth Leol a chwmnïau preifat.

Trosi proffesiynol

Mewn rhai achosion, efallai y bydd yn bosibl cymhwyso'n fargyfreithwr mewn ffordd arall yn hytrach na dilyn y llwybr confensiynol. Er enghraifft, gall cyfreithwr cymwysedig gael eu heithrio rhag gorfod bodloni rhai o'r gofynion hyfforddiant arferol drwy sefyll Prawf Trosglwyddo'r Bar (BTT).

Penodiad i fod yn sidanwr ac yn farnwr

Mae llawer o'r bargyfreithwyr hynny sydd wedi datblygu practis da yn dewis gwneud cais i fod yn Gwnsler y Frenhines yn ddiweddarach yn eu gyrfa. Os byddant yn llwyddiannus, byddant yn dod yn un o Gwnsleriaid y Frenhines (a gallant ychwanegu'r llythrennau "CF", y mae cymaint yn anelu atynt, ar ôl eu cyfenw) ac yn cael yr hawl i wisgo gŵn sidan yn y Llys, sef y rheswm pam maent yn aml yn cael eu galw'n "sidanwyr". Mae'r teitl yn

cydnabod eu bod wedi sicrhau rhagoriaeth yn eu maes ac fe'i dyfernir gan Yr Arglwydd Ganghellor mewn seremoni broffil uchel. Bydd Cwnsleriaid y Frenhines yn ymddangos yn yr achosion mwyaf difrifol a phwysig.

Mae llawer o fargyfreithwyr yn dewis gwneud cais i fod yn farnwyr yn ddiweddarach yn eu gyrfa; yn wir, mae'r mwyafrif o farnwyr llysoedd uwch yn gyn-fargyfreithwyr. Mae llawer o fargyfreithwyr hefyd yn eistedd fel barnwyr rhan-amser (er enghraifft, Dirprwy Farnwyr Rhanbarth neu Gadeiryddion Tribiwnlysoedd) tra eu bod yn ymarfer yn y Bar.



ARIANNU EICH HYFFORDDIANT

Un o bryderon mwyaf y rhan fwyaf o gyw fargyfreithwyr yw cost ymuno â'r proffesiwn. Mae'n bwysig deall, cyn i chi wneud unrhyw ymrwymadau hirdymor, beth yn union y gallai'r gost honno fod i chi.

Dylech ystyried y ffioedd dysgu ar gyfer eich gradd israddedig (a fydd ond yn daladwy pan fyddwch yn dechrau ennill arian), y GDL (os gwnaethoch astudio gradd nad oedd yn gysylltiedig â'r gyfraith) a'r BPTC, yn ogystal â chostau byw. Bydd y costau ar gyfer pob un o'r cyrsiau hynny yn amrywio yn dibynnu ar ble rydych yn eu hastudio a dylech geisio cael cymaint o wybodaeth â phosibl ymlaen llaw. Mae gwefan Bwrdd Safonau'r Bar yn darparu gwybodaeth am y gwahanol ddarparwyr BPTC www.barstandardsboard.org.uk ac mae darparwyr GDL a BPTC yn nodi cost cyrsiau ar eu gwefannau.

Er bod meddwl am ariannu eich llwybr at y Bar yn ddigon i ddigalonni llawer o ymgeiswyr, mae amrywiaeth o gymorth ar gael, gan yr Ysbytyau, banciau a nifer o fwrsariaethau, fel y nodir isod.

Rhyngddynt, mae pedwar Ysbyty'r Brawdlys yn dyfarnu ysgoloriaethau gwerth tua £5

miliwn bob blwyddyn, y mae'r mwyafrif ohonynt ar gyfer y BPTC, ond mae dyfardaliadau hefyd ar gael ar gyfer y GDL a disgybleddau. Mae rhai o'r Ysbytyau hefyd yn rhoi grantiau ar gyfer interniaethau ac i fyfyrwyr neu ddisgyblion yr Ysbytyau y mae anabledd yn effeithio arnynt ac a all ddangos fod angen cymorth ariannol arnynt.

Mae pob un o'r Ysbytyau yn dyfarnu eu hysgoloriaethau a'u grantiau yn ôl teilyngdod a gan ystyried angen ariannol. Mae'n bwysig nodi y gall ymgeiswyr ond gwneud cais am ysgoloriaeth i un Ysbyty yn unig a bod yn rhaid iddynt fod yn aelod o'r Ysbyty hwnnw i fanteisio ar unrhyw ddyfardal a gynigir.

Am ragor o wybodaeth am yr ysgoloriaethau a'r grantiau sydd ar gael gan yr Ysbytyau, y meini prawf a ddefnyddir i bennu dyfardaliadau a'r gweithdrefnau gwneud cais a'r dyddiadau cau, ewch i'w priod wefannau.

Ysbyty Lincoln (www.lincolnsinn.org.uk)

Y Deml Fewnol (www.innertemple.org.uk)

Y Deml Ganol (www.middletemple.org.uk)

Ysbyty Gray (www.graysinn.org.uk)

Ymhlith y ffynonellau eraill o gymorth ariannol mae:

- Nifer o fanciau'r stryd fawr, sy'n cynnig benthyciadau i raddedigjon, a all fod yn ddigon i dalu costau cyfran sylweddol o'ch astudiaethau a'ch llety.
- Benthyciadau datblygiad profesiynol a datblygu gyrfa, y gellir eu defnyddio er mwyn helpu i dalu am ddysgu cysylltiedig â gwaith. Gallwch gael benthycio rhwng £300 a £10,000 gan fanc er mwyn helpu i dalu cost hyd at ddwy flynedd o ddysgu (neu dair blynedd os yw'n cynnwys blwyddyn o waith ymarferol di-dâl perthnasol). Bydd y Llywodraeth yn talu'r llog ar y benthyciad tra byddwch yn dysgu ac am fis ar ôl hynny. Gellir defnyddio'r benthyciadau i dalu ffioedd cyrsiau neu gostau eraill megis costau teithio a byw. Gallwch hefyd ddefnyddio'r benthyciad i ategu mathau eraill o gymorth megis grantiau neu fwsariaethau. Am fod y Benthyciad Datblygiad Personol a Datblygu Gyrfa yn gynnyrch benthycia masnachol, dim ond fel opsiwn pan fyddwch wedi ymchwilio i bob opsiwn ariannu arall sydd ar gael i fyfyrwyr y dylech ei ystyried. Am ragor o wybodaeth am gymorth ariannol er mwyn helpu i dalu am eich dysgu, ewch i www.direct.gov.uk/adultlearning.
- Mae Ymddiriedolaeth Ysgoloriaethau Kalisher, sy'n talu ffioedd y cwrs BPTC ar gyfer dau ddarpar fargyfreithiwr bob blwyddyn, yn cynnig amrywiaeth o fwsariaethau a dyfarndaliadau llai o faint gan gynnwys gwobr flynyddol gwerth £3,000 am ysgrifennu traethawd. Y nod yw annog a chefnogi myfyrwyr talentog na fyddent, fel arall, yn gallu dilyn gyrfa yn y Bar troseddol. Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan yr Ymddiriedolaeth: www.thekalishertrust.org.
- Os byddwch yn llwyddo i gael disgybledd cyn dechrau ar eich BPTC, bydd rhai siambrau yn caniatáu i chi gael rhan o'r swm a ddyfarnwyd i chi ar gyfer eich disgybledd cyn iddi ddechrau, a elwir yn 'draw down'.
- Efallai y bydd angen i chi ystyried gwaith rhan-amser a gwaith paragyfreithiol hefyd. Yn ogystal â'ch helpu'n ariannol, gallai'r profiad cywir eich helpu i chwilio am ddisgybledd.

BLE MAE'R BAR WEDI'I LEOLI

Ysbytyau'r Brawdlys

Mae pedwar Ysbyty'r Brawdlys, sef: Ysbyty Lincoln, y Deml Fewnol, y Deml Ganol ac Ysbyty Gray. Er bod pob un o'r Ysbytyau wedi'u lleoli yn Llundain, mae ganddynt gysylltiadau cryf ledled Cymru, Lloegr a'r byd (yn rhannol am fod llawer o fyfyrwyr rhyngwladol hefyd yn cael eu Galw i'r Bar yng Nghymru ac yn Lloegr). Mae'n rhaid i bob bargyfreithiwr ymuno ag Ysbyty cyn iddo ddechrau ar y BPTC.

“Mae ymuno ag un o Ysbytyau'r Brawdlys yn dangos ymrwymiad i'r proffesiwn o gam cynnar. Ymunais yn ystod fy mlwyddyn olaf yn y Brifysgol. Gallant gynnig cymorth a gwybodaeth ar bob cam, yn enwedig yn ystod y flwyddyn pan fyddwch yn dilyn y cwrs BPTC. Gorau oll po fwyaf o ran y gallwch ei chwarae yn mywyd yr Ysbyty.”

Anna Chestnutt
Siambrau Furnival

Mae pedwar Ysbyty'r Brawdlys, sef: Ysbyty Lincoln, y Deml Fewnol, y Deml Ganol ac Ysbyty Gray. Er bod pob un o'r Ysbytyau wedi'u lleoli yn Llundain, mae ganddynt gysylltiadau cryf ledled Cymru, Lloegr a'r byd (yn rhannol am fod llawer o fyfyrwyr rhyngwladol hefyd yn cael eu Galw i'r Bar yng Nghymru ac yn Lloegr). Mae'n rhaid i bob bargyfreithiwr ymuno ag Ysbyty cyn iddo ddechrau ar y BPTC.

Un o swyddogaethau ffurfiol yr Ysbytyau yw Galw bargyfreithwyr newydd i'r Bar, ar ôl iddynt gwblhau eu hyfforddiant. Ar ôl i chi gael eich Galw gan Ysbyty penodol, bydd cydberthynas rhyngoch chi â'r Ysbyty hwnnw am weddill eich gyrfa yn y Bar neu'r farnwriaeth, os byddwch yn dod yn farnwr. Maent hefyd yn un o brif ffynonellau cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n hyfforddi ar gyfer y Bar.

Mae'r Ysbytyau yn sefydliadau hanesyddol sy'n darparu gweithgareddau addysg a hyfforddiant modern o'r radd flaenaf mewn amgylchedd cefnogol a chynhwysol. Maent hefyd yn cynnig cyfeusterau llyfrgell a TG helaeth, cymorth i fargyfreithwyr ac aelodau dan hyfforddiant a mathau eraill o hyfforddiant parhaus, yn arbennig hyfforddiant eiriolaeth, drwy gydol eich gyrfa.

Cyn i chi ddod yn fargyfreithiwr yn ffurfiol, yn ogystal â phasio'r BPTC, bydd angen i chi gwblhau 12 o 'Sesiynau Cymhwyso', a gynhelir gan yr Ysbytyau. Gall y sesiynau hyn gynnwys hyfforddiant eiriolaeth, gweithdai seiliedig ar sgiliau neu fynd i ddarlithoedd a ddilynir gan giniawau ffurfiol gyda bargyfreithwyr a barnwyr. Mae'r rhain yn cynnig cyfle i fyfyrwyr gyfarfod a dysgu gan fargyfreithwyr a barnwyr sy'n ymarfer ac arbenigwyr eraill.

Cyngor y Bar a Bwrdd Safonau'r Bar

Mae Cyngor y Bar yn cynrychioli bargyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr ac yn cynnwys cyngor o fargyfreithwyr sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac a gefnogir gan bwyllgor gweithredol o staff cyflogedig. Cyngor y Bar sy'n gyfrifol am hyrwyddo gwasanaethau arbenigol a chynghorol y Bar sydd o ansawdd uchel, mynediad teg i gyfiawnder i bawb, y safonau uchaf o ran moeseg, cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob rhan o'r proffesiwn a'r gwaith o ddatblygu cyfleoedd busnes yn y wlad hon a dramor.

Er mwyn ymarfer, mae'n rhaid i bob bargyfreithiwr gofrestru â Chyngor y Bar a phrofi bob blwyddyn eu bod wedi datblygu'n broffesiynol drwy hyfforddiant a chyfleoedd dysgu eraill. Cyngor y Bar yw rheoleiddwr cymeradwy'r Bar, ond mae'n cyflawni'r swyddogaethau hyn drwy Fwrdd Safonau

Annibynnol y Bar. Bwrdd Safonau'r Bar sy'n gyfrifol am bennu gofynion addysg a hyfforddiant ar gyfer dod yn fargyfreithiwr, gofynion hyfforddiant parhaus a chodau ymddygiad i fargyfreithwyr, monitro'r gwasanaethau a ddarperir gan y Bar, delio â chwynion yn erbyn bargyfreithwyr a chymryd camau disgyblu yn eu herbyn.

Am ragor o wybodaeth am Gyngor y Bar, ewch i www.barcouncil.org.uk. Ar gyfer Bwrdd Safonau'r Bar, ewch i www.barstandardsboard.org.uk.



Siambrau

Mae'r rhan fwyaf o fargyfreithwyr hunangyflogedig yn dod at ei gilydd i ffurfio grwpiau mewn setiau o siambrau, sy'n eu galluogi i rannau swyddfeydd, costau staff a gorbenion eraill. Fel arfer, bydd siambrau yn cael eu harwain gan un neu ddau fargyfreithiwr arbenigol. Yn ogystal â'u tenantiaid (aelodau parhaol), bydd rhai siambrau hefyd yn caniatáu i 'sgwatwyr' (bargyfreithwyr heb denantiaeth) leoli eu hunain yno dros dro.

Mae nifer fawr o siambrau wedi'u lleoli o amgylch pedwar Ysbyty'r Brawdlys yn Llundain. Mae tua dau o bob tri bargyfreithiwr hunangyflogedig yn aelodau o siambrau yn Llundain, er ei bod yn bosibl eu bod yn teithio ledled Cymru a Lloegr hefyd er mwyn cynnal achosion mewn llysoedd rhanbarthol. At hynny, mae llawer o siambrau wedi'u lleoli y tu allan i Lundain, yn bennaf mewn clystyrau o amgylch y dinasoedd mwyaf..

“Gwn fod diwrnod gwaith arferol rhwng 9 a 5 o'r gloch ac y byddaf yn gweithio yn fy swyddfa bob dydd yn hytrach na theithio i lysoedd gwahanol ledled y wlad. Mae'n gymdeithasol iawn am eich bod yn rhan o dîm ac yn cael y cyfrifoldeb am eich llwyth achosion eich hun yn gynnar.”

Amelia Highnam
Adran Gyfreithiol y Llywodraeth

Y Bar Cyflogedig

Mae bargyfreithiwr hunangyflogedig yn rhoi cyngor cyfreithiol mewn nifer fawr o sefydliadau ac, fel arfer, byddant wedi'u lleoli ym mhencadlys y sefydliad hwnnw. Mae rhai o'r sefydliadau hyn wedi'u lleoli yn y Trydydd Sector, Gwasanaeth Cyfreithiol y Llywodraeth, Awdurdodau Lleol neu Wasanaeth Erllyn y Goron. Gall fod cyfleoedd i fargyfreithwyr a gyflogir gan y Lluoedd Arfog neu'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad weithio dramor. Mae bargyfreithwyr cyflogedig eraill yn gweithio mewn practisau preifat mewn cwmnïau cyfreithiol neu'n fewnol i gwmnïau cenedlaethol a rhyngwladol.

Cylchdeithiau

Mae Cymru a Lloegr wedi'u rhannu'n chwe 'Chylchdaith' ranbarthol, sy'n gweithredu fel hybiau lleol i fargyfreithwyr y tu allan i Lundain, gan ddarparu digwyddiadau hyfforddi a chynnal digwyddiadau cymdeithasol. Mae Arweinwyr y Cylchdeithiau yn fargyfreithwyr sy'n ymarfer sy'n gweithredu fel sianeli cyfathrebu rhwng y Cylchdeithiau a Chyngor y Bar yn Llundain.

Am ragor o wybodaeth am y Cylchdeithiau, gan gynnwys manylion cyswllt, ewch i www.barcouncil.org.uk/about-the-bar/what-is-the-bar/circuits.

“Roeddwn bob amser yn gwybod fy mod i am fod y tu allan i Lundain ac yn nes at fy nghartref, ond doeddwn i ddim yn sylweddoli pa mor gefnogol a pharod i helpu y byddai fy nghylchdaith.”

Rosemary Kavanagh
Siambrau Bank House



Cymdeithasau Arbenigol y Bar

Mae Cymdeithasau Arbenigol y Bar (SBAs) yn sefydliadau aelodaeth i fargyfreithwyr, sydd wedi'u targedu fel arfer at y rhai sy'n ymarfer mewn maes cyfreithiol arbennig, megis trosedd, siawnsri, masnachol, teulu neu anaf personol. Maent yn darparu gwasanaethau cynrychioliadol i'w haelodau, yn darparu hyfforddiant ac yn cynnal digwyddiadau eraill ac maent yn aml yn ymateb i ymgynghoriadau'r Llywodraeth sy'n effeithio ar eu maes arbenigol.

Yn ogystal â'r Cymdeithasau Arbenigol hynny sy'n canolbwyntio ar feysydd cyfreithiol penodol, mae Pwyllgor Baryfreithwyr Ifanc Cyngor y Bar

yn cynrychioli buddiannau bargyfreithwyr a gwblhaodd eu hyfforddiant lai na saith mlynedd yn ôl. Mae Pwyllgor y Baryfreithwyr Cyflogedig yn cynrychioli buddiannau bargyfreithwyr cyflogedig, y cynrychiolir rhai ohonynt hefyd gan Gymdeithas y Bar ar gyfer Masnach, Cyllid a Diwydiant (BACFI).

I gael rhestr lawn o Gymdeithasau Arbenigol y Bar a dolen i'w gwefannau, ewch i: www.barcouncil.org.uk/about-the-bar/what-is-the-bar/specialist-bar-associations. I ddarllen mwy am Bwyllgor y Baryfreithwyr Ifanc, ewch i: www.barcouncil.org.uk/about-us/constitution-and-structure/committees/young-barristers'-committee.

DEALL Y JARGON

Bargyfreithiwr cyflogedig - mae'r rhan fwyaf o fargyfreithwyr yn hunangyflogedig ac yn ymarfer o siambrau. Mae'r gweddill yn cael eu cyflogi i weithredu fel bargyfreithwyr mewnol gan gwmnïau cyfreithiol, cwmnïau eraill a'r Llywodraeth, gan gynnwys Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Bargyfreithiwr ieuaf - bargyfreithiwr nad yw un o Gwnsleriaid y Frenhines (CF).

BPTC - 'Cwrs Hyfforddiant Proffesiynol y Bar', sef cam galwedigaethol hyfforddiant academiaidd ar gyfer y Bar. Mae'r cwrs hwn ar gael gan wahanol ddarparwyr ac mae'n dysgu gweithdrefn, eiriolaeth, moeseg, dulliau ymchwilio a sgiliau ymarferol. Hwn yw cam academiaidd olaf hyfforddiant ar gyfer y Bar.

Briff - y dogfenau sy'n nodi cyfarwyddiadau achos er mwyn i fargyfreithiwr ddadlau achos yn y llys.

Briff ieuaf - achos lle y caiff bargyfreithiwr ieuaf ei arwain gan fargyfreithiwr hŷn, CF fel arfer, mewn achos mawr a fyddai'n ormod o waith i un bargyfreithiwr ar ei ben ei hun. Fel arfer, bydd y bargyfreithiwr hŷn yn ymgymryd â'r eiriolaeth.

Burdd Safonau'r Bar - rheoleidiwr annibynnol y Bar.

CF/Cwnsler y Frenhines - uwch fargyfreithiwr a benodwyd gan y Frenhines yn "un o Gwnsleriaid Dysgedig yn y Gyfraith Ei Mawrhydi" (yn dilyn proses recriwtio ffurfiol a thryloyw, a gynhaliwyd gan banel penodi Cwnsleriaid y Frenhines). Mae Cwnsleriaid y Frenhines yn uwchaelodau o'r Bar, ac mae'n arwydd o ragoriaeth. Maent yn ymddangos yn yr achosion mwyaf difrifol a phwysig.

Clerc - staff siambrau sy'n gyfrifol am greu a phennu gwaith a rheoli dyddiaduron bargyfreithwyr.

Cofiadur - barnwr rhan-amser, sy'n aml yn fargyfreithiwr sy'n ymarfer.

CPS - Gwasanaeth Erlyn y Goron, sef y prif gorff sy'n gyfrifol am erlyn troseddau yng Nghymru a Lloegr.

Cwnsler - ffordd arall o gyfeirio at fargyfreithiwr.

Cyngor y Bar - mae Cyngor y Bar yn cynrychioli bargyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr. Fe'i gelwir hefyd yn Gyngor Cyffredinol y Bar a'r corff hwn yw Rheoleidiwr Cymeradwy Bar Cymru a Lloegr. Mae'n cyflawni ei swyddogaethau rheoleiddiol drwy Fwrdd Safonau annibynnol y Bwrdd.

Cylchdeithiau - y chwe ardal ddaeaeryddol y mae Llysoedd Cymru a Lloegr wedi'u rhannu iddynt: Cylchoedd y Gogledd-Ddwyrain, y Gogleddol, De-ddwyrain, y Gorllewin a Chymru a Chaer.

Disgybl - yr enw a roddir ar fargyfreithwyr sy'n ymgymryd â'r elfen ymarferol o'u hyfforddiant, sy'n brentisiaeth yn ei hanfod.

Disgybledd - blwyddyn o brentisiaeth mewn siambrau neu sefydliad cymeradwy arall. Am y chwe mis cyntaf, ni fydd y disgybl yn ymarfer a bydd yn cysgodi ei oruchwyliwr. Yn ystod yr ail chwe mis bydd yn parhau i gysgodi goruchwylydd, ond efallai y bydd yn cynnal ei achosion ei hun hefyd, o dan oruchwyliath.

Galw i'r Bar - y broses lle mae un o Ysbytyau'r Brawdlys yn rhoi teitl 'bargyfreithiwr' i'r rhai sydd wedi cwblhau'r gofynion hyfforddiant angenrheidiol ac wedi argyhoeddi eu Hysbyty eu bod yn addas i gael eu Galw i'r Bar. Ni ellir defnyddio'r teitl fel un proffesiynol nes i'r ddisgybledd gael ei chwblhau.

GDL - 'Diploma yn y Gyfraith i Raddedigion': cwrs 'trosi'r' gyfraith y mae darpar fargyfreithwyr

nad oes ganddynt radd yn y gyfraith yn ei ddilyn cyn dechrau ar y BPTC.

Goruchwyliwr disgyblion - bargyfreithiwr sy'n gweithredu fel mentor disgyblion yn ystod disgybledd.

Hebrung - cysgodi barnwr i gael profiad gwaith.

Mainc - y barnwr/barnwyr.

Meinciwr - uwch aelod o un o Ysbytyau'r Brawdlys, a elwir hefyd yn Feistr y Fainc.

Mini-ddisgybl - yr enw a roddir ar rywun sy'n cael profiad gwaith mewn set o siambrau. Efallai y bydd rhai setiau o siambrau yn disgwyl i ddarpar ddisgyblion fod wedi cwblhau mini-ddisgybledd yn y set honno.

Pennaeth Siambrau - uwch fargyfreithiwr mewn set o siambrau a etholir neu a benodir yn bennaeth arni.

Porth Disgybleddau - porth gwneud cais ar-lein Cyngor y Bar ar gyfer disgybleddau (y mae rhai siambrau, nid pob un, yn tanysgrifio iddo).

Sesiynau Cymhwyso - er mwyn bod yn gymwys i gael eu Galw i'r Bar, mae'n rhaid i ddarpar fargyfreithwyr basio'r BPTC a mynd i 12 o sesiynau cymhwyso yn eu dewis Ysbyty Brawdlys. Gall y sesiynau hyn gynnwys hyfforddiant eiriolaeth, gweithdai seiliedig ar sgiliau neu fynd i ddarlithoedd a ddilynir gan giniawau ffurfiol gyda bargyfreithwyr.

Set - term anffurfiol am siambrau.

Sgwatiwr - efallai y caiff disgybl na chaiff ei wahodd i ddod yn denant y cyfle i ddod yn 'sgwatiwr' mewn siambrau. Caiff aros a pharhau i ymgymryd â'u hachosion eu hunain am gyfnod, heb fod ganddynt le parhaol yn y siambrau.

Siambrau - yr enw torfol ar grŵp o fargyfreithwyr hunangyflogedig sy'n rhannu safle, hunaniaeth gorfforaethol, staff a gorbenion.

Sidanwr - term anffurfiol am CF - a elwir felly am eu bod yn gwisgo gŵn sidan yn y llys.

Slafio - cwblhau gwaith â thâl i aelodau eraill siambrau.

Tenant - aelod o set o siambrau.

Tenantiaeth - tua diwedd eu disgybledd, efallai y cynigir tenantiaeth i unigolyn, sef yr hawl i barhau i ymarfer o set o siambrau fel bargyfreithiwr hunangyflogedig.

Trydydd chwech - efallai y cynigir 'trydydd chwech' i ddisgybl na chaiff ei wahodd i ddod yn denant; sy'n golygu, yn y bôn, chwe mis arall fel disgybl mewn set arall o siambrau, fel arfer gyda'r nod o gael tenantiaeth os bydd yn eu cwblhau'n llwyddiannus.

Ymryson - dadl gyfreithiol lle mae'r cyfranogwyr yn cynnal achos mewn llys apêl ffug.

Ysbytyau'r Brawdlys - y pedwar sefydliad hanesyddol sydd â'r hawl unigryw i Alw bargyfreithwyr i'r Bar. Yn ogystal â chynnig ysgoloriaethau ar gyfer hyfforddiant ar gyfer y Bar, rôl sylfaenol Ysbytyau'r Brawdlys yw darparu addysg a hyfforddiant i fyfyrwyr a bargyfreithwyr. Hefyd, mae gan yr Ysbytyau gymdeithasau sy'n bodoli'n unswydd i gynnig cyfleoedd i ymryson a dadlau a threfnu digwyddiadau cymdeithasol. Fel sefydliadau aelodaeth, maent yn cynnal cydberthnasu cryf â'u haelodau drwy gydol eu gyrfaoedd.

Ysgol Bar - yr enw anffurfiol ar ddarparwr y BPTC.

RHAGOR O WYBODAETH

I gael yr ystadegau diweddaraf ar broffil y Bar, darllenwch y 'Bar Barometer', sy'n gyhoeddiad blynyddol yn dadansoddi tueddiadau ystadegol ym mhob rhan o'r proffesiwn.

Mae arolwg 'Bywydau Gwaith Bargyfreithwyr' yn rhoi cipolwg i ni ar farn bargyfreithwyr am eu bywyd yn y gwaith a'u proffesiwn. Mae Cyngor y Bar wedi llunio sawl adroddiad ar broffil ymgeiswyr ar gyfer y BPTC a myfyrwyr y cwrs hwnnw, ymgeiswyr y system ddisgybleddau ar-lein a disgyblion cofrestredig a ddylai eich helpu pan fyddwch yn ystyried gyrfa yn y Bar. Gallwch ddarllen yr adroddiadau hyn yma: www.barcouncil.org.uk/about-the-bar/facts-and-figures/publications

Ewch i wefannau Cyngor y Bar, Ysbytyau'r Brawdlys neu Fwrdd Safonau'r Bar am ragor o wybodaeth.

- www.barcouncil.org.uk
- www.barstandardsboard.org.uk
- www.barcouncil.org.uk/about-the-bar/what-is-the-bar/inns-of-court
- www.lincolnsinn.org.uk
- www.innertemple.org.uk
- www.middletemple.org.uk
- www.graysinn.org.uk



*Lluniwyd y llyfryn hwn ar y cyd â
phedwar Ysbyty'r Brawdlys*



Ysbyty Lincoln



Y Deml Fewnol



Y Deml Ganol



Ysbyty Gray